# Cofnodion

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta

21 Ionawr 2020, 12:15–13:30
Ystafell Bwyllgora b, Tŷ Hywel

## Yn bresennol

| | | |
|---|---|---|
| Bethan Sayed AC (Cadeirydd) | BS | Gorllewin De Cymru / Plaid Cymru |
| Helen Mary Jones AC | HMJ | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Emily Hoskins | EH | |
| Kim Palmer | KP | Gwasanaeth Allgymorth Anhwylderau Bwyta (EDOS), Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) |
| Menna Jones | MJ | Haen 3, Arweinydd Clinigol Tîm Anhwylderau Bwyta Caerdydd a'r Fro / Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf |
| Jacinta Tan | JT | CAMHS, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Jazz Callen-Davies | JCD | |
| Nyall Boyd | NB | |
| Sam Sharpe | SS | Arweinydd Clinigol a Phennaeth y Gwasanaeth Haen 3, Anhwylderau Bwyta, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Philippa Richards | PR | Gweinyddwr a Gweithiwr Achos, Swyddfa Bethan Sayed |
| Chad Rickard | CR | Swyddog Ymchwil a Chyfathrebu, Swyddfa Bethan Sayed AC |
| Jo Whitfield, Beat | JW | Beat |
| Tom Quinn | TQ | Beat |

| 1. Croeso ac ymddiheuriadau | Camau gweithredu |
|---|---|
| Croesawodd Bethan Sayed AC y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta.<br><br>**CAFWYD**: Ymddiheuriadau gan aelodau absennol<br>- Janet a Jon Ribero, Gofalwyr - maen nhw wedi gofyn am gael eu tynnu o'r grŵp gan fod eu merch wedi bod yn sefydlog ers nifer o flynyddoedd, ac fe wnaethant ofyn am gyfleu eu | |

DRAFT

diolch am y gefnogaeth a gawsant gan y grŵp dros y blynyddoedd.

| | |
|---|---|
| - James Downs<br>- Donna Mason, Mental Health Matters Wales<br>- Emma-Jayne Hagerty, Gwasanaethau Arbenigol ar Anhwylderau Bwyta, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>- Sian Taylor, Prif Ddeietegydd, CAMHS, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>- Toni Hoefkens, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>- Michaela Moore, Mental Health Matters Wales<br>- Carl Shortland, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru<br>- Gerrard McCullagh, Arweinydd Clinigol, Gwasanaeth Arbenigol Haen 3, Anhwylderau Bwyta<br>- Kerry McLeod, Deietegydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>- Natalie Chetwynd, Arweinydd CLinigol, Gwasanaeth Arbenigol Haen 3, Gorllewin Cymru<br>- Martin Ball<br>- Louise Rodde, Uwch Ymarferydd CAMHS ac Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis ac Arweinydd ar Anhwylderau Bwyta, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys<br>- Helen Missen, Gofalwr | |
| - Gemma Johns, CAMHS / Tîm Adolygu Anhwylderau Bwyta, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>- Dai Lloyd AC (Gorllewin De Cymru) | |
| **2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf** | **Camau gweithredu** |
| **CYMERADWYWYD**<br><br>Cofnodion y cyfarfod diwethaf | **JW** i'w hanfon i'r swyddfa gyflwyno |
| **3. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol 2019-20** | **Camau gweithredu** |
| **CYMERADWYWYD**<br>Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta<br>a'r Datganiad Ariannol Blynyddol. | **JW** i'w hanfon i'r swyddfa gyflwyno |
| **4. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - Ethol Cadeirydd** | |
| BS oedd yr unig enwebiad ar gyfer cadeirydd y Grŵp | |

DRAFT

Trawsbleidiol

ar Anhwylderau Bwyta ac fe gafodd gefnogaeth unfrydol pawb oedd yn bresennol. Bydd Beat yn darparu cymorth ysgrifenyddol.

| | |
|---|---|
| Cytunwyd y byddai HMJ yn dod yn gadeirydd dros dro ar y grŵp tra bod BS ar gyfnod mamolaeth. | |
| **5. Cylch Gorchwyl** | |
| Diweddarodd JW y grŵp ar newidiadau arfaethedig i gylch gorchwyl grŵp gan gynnwys materion i'w hystyried yn ystod 2020/2021, sef:<br>- Gweithredu'r argymhellion a wnaed yn Adolygiad Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta Cymru 2018.<br>- Nodi anhwylderau bwyta wrth gam cynnar a bod pobl yn cael eu cefnogi i geisio cymorth.<br>- Proffil anhwylderau bwyta yn y strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – cynlluniau ar gyfer gweithredu a'r strategaeth y tu hwnt i 2022.<br>- Addysgu ac asesu priodol o ran anhwylderau bwyta yn ysgolion meddygol Cymru a bod pob meddyg iau sy'n cael hyfforddiant lefel sylfaen yng Nghymru yn buddio o brofiad clinigol arbenigol o anhwylderau bwyta.<br>- Parch cydradd tuag at gyllid ar gyfer ymchwil iechyd meddwl gan gynnwys ymchwil i anhwylderau bwyta. Wythnos Ymwybyddiaeth o Anhwylderau Bwyta 2 – 8 Mawrth 2020.<br>- Polisi a deddfwriaeth arall sy'n berthnasol i anhwylderau bwyta.<br>Dywedodd JW ei bod wedi cysylltu ag Aelodau'r Cynulliad oedd wedi'u rhestru fel aelodau i weld a oedden nhw am barhau i fod yn aelodau o'r grŵp.<br>Cafwyd trafodaeth ar sut i ymgysylltu Aelodau o'r Cynulliad ymhellach yng ngwaith y Grŵp Trawsbleidiol. Roedd cytunwyd y byddai neges yn cael ei drafftio i bob AC eu hysbysu y bydd HMJ yn gweithredu fel cadeirydd tra bydd BS ar absenoldeb mamolaeth, ac i annog eu cefnogaeth a cymryd rhan yn y grŵp. | **JW** i ddrafftio neges i Aelodau o'r Cynulliad, i BS / HMJ ei hanfon. |
| Awgrymwyd sawl gwelliant i'r TOR gan | **JW** i ddiweddaru TOR a |

| | |
|---|---|
| y rheini oedd yn bresennol, a'u nodi. | chylchredeg am gytundeb drwy<br>e-bost. |

| | |
|---|---|
| Awgrymodd MJ y dylid sicrhau bod cynrychiolaeth ar y grŵp gan rywun a allai ddarparu cysylltiad ag addysg, ac y dylid estyn gwahoddiad i'r unigolyn fod yn rhan o'r grŵp. Awgrymodd JT wahodd Dave Williams sy'n ddarpar Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg gyda bwrdd iechyd.<br><br>Awgrymodd BS y dylai'r materion a nodwyd ffurfio'r sail ar gyfer cynllun gweithredu ar gyfer y grŵp. | **JT** i gyflwyno Dave Williams i JW fel ei fod yn gallu cael ei wahodd i ymuno â'r grŵp.<br><br>**JW / TQ** i greu cynllun gweithredu drafft a'i gylchredeg i grwp i gytuno yn ei gylch trwy e-bost cyn y cyfarfod nesaf. |
| **6. Adolygiad o'r Gwasanaeth Anhwylder Bwyta - Diweddariad a Chamau Nesaf** | |
| Rhoddodd JT drosolwg i'r grŵp o ran y datblygiadau presennol ym maes anhwylderau bwyta yn y DU ac amlinellodd gylch gwaith yr adolygiad. Eglurodd JT fod sawl egwyddor sylfaenol a fynegwyd gan y cyhoedd yn sail i'r yr argymhellion a wnaed, sef:<br>- Canfod ac ymyrraeth wrth gam cynnar<br>- Cynwysoldeb<br>- Person-ganolog<br>- Yn seiliedig ar berthynas<br>- Yn canolbwyntio ar adferiad<br>- Gwybodus o ran trawma<br><br>Yn dilyn hynny, rhoddodd JT drosolwg o'r 22 o argymhellion yr adolygiad y cawsant eu cyhoeddi gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gethin, ym mis Medi 2019.<br><br>Yn dilyn hynny, rhoddodd MJ drosolwg o'r datblygiadau allweddol ers cyflwyno'r adroddiad o'r adolygiad o'r gwasanaeth yn 2018.<br>- Mai 2 2019 – Cronfa Wella'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl gwerth £14m, gydag anhwylderau bwyta'n cael eu nodi fel un o ardal â blaenoriaeth allweddol. Cyflwynodd pob Bwrdd Iechyd ar wahân i Betsi Cadwaladr gynigion, ac roedd eu cynigion yn llwyddiannus.<br>- Mai 10 2019 – Digwyddiad ymgynghori â chlinigwyr. | |

- Mis Medi 2019 – Cyhoeddi argymhellion yr adolygiad
- Mis Tachwedd 2019 – Gofynnodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am fanylion gan

| | |
|---|---|
| fyrddau ar safbwyntiau ar argymhellion yr adolygiad.<br>Ionawr 10 2020 – Cyhoeddi prif rôl genedlaethol ym maes Anhwylderau Bwyta a fydd wedi'i lleoli yng Nghydweithfa GIG Cymru, gan weithio i Jo Jordan, y Cyfarwyddwr Gofal Iechyd Meddwl.<br><br>**Y camau nesaf**<br>Awgrymodd MJ y dylai'r Gweinidog ddarparu eglurder pellach ar yr gyllideb ar gyfer gweithredu'r argymhellion, sydd bellach ei angen gan y Byrddau Iechyd a gwybodaeth am y broses ar gyfer gweithredu. | **JW / TQ i** ddrafftio llythyr oddi wrth Bethan / Helen Mary i'r Gweinidog yn gofyn am eglurder ynghylch cyllido a gweithredu argymhellion yr adroddiad, a'i wahodd i siarad â'r grŵp yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol.<br>**JW / TQ** i ddrafftio llythyr ar gyfer Bethan / Helen Mary i Dai Lloyd, cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, yn ceisio cymorth am gyllid digonol ar gyfer gweithredu'r argymhellion. |
| **7. Unrhyw fater arall** | |
| Tynnodd JW sylw at y ffaith bod gwybodaeth ar gael ar gyfer y grŵp i'w ddwyn ymaith am ymgyrch Hope Virgo, “Dump the Scales”.<br><br>Dywedodd JT fod EH's wedi creu argraff fawr arni yn ei chyfweliad ar BBC Wales yn ddiweddar ynghylch ei stori, a bod cyfweliadau o'r fath yn ddefnyddiol iawn wrth gadw proffil gwasanaethau anhwylder bwyta Cymru ym meddyliau pobl.<br>Diweddarodd JW y grŵp ar Wythnos Ymwybyddiaeth o Anhwylderau Bwyta<br><br>sy'n cael ei chynnal yn ystod 2 – 8 Mawrth 2020. | **JW i** sicrhau bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael |

| | |
|---|---|
| Esboniodd JW fod Beat wedi trefnu Diwrnod Gweithredu i Ymgyrchwyr yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 4 | gwahoddiad i'r digwyddiad diwrnod gweithredu. |

Ym mis Mawrth, bydd cyfle i gefnogwyr ac ymgyrchwyr yng Nghymru ymgysylltu ag Aelodau o'r Cynulliad a rhannu eu profiadau o anhwylderau bwyta. Cytunodd y grŵp y dylid gwahodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r digwyddiad Diwrnod Gweithredu.

Anogodd JW y grŵp i gymryd rhan yn Wythnos Ymwybyddiaeth o Anhwylderau Bwyta, naill ai trwy fod yn bresennol ar y diwrnod gweithredu, trwy'r cyfryngau cymdeithasol neu drwy gynnal eu digwyddiad eu hunain. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
https://www.beateatingdisorders.org.uk/edaw

Esboniodd JW mai'r bwriad yw anelu at gynnal tri chyfarfodydd y flwyddyn, gyda'r nesaf wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill / Mai 2020, fodd bynnag, gallai hynny fod yn ddibynnol ar amserlen y Gweinidog Iechyd os yw'n gallu bod yn bresennol.

Y trydydd cyfarfod i'w gynnal yn yr hydref.